GambleAware

# Cofnodion Panel Cynghori Cymru

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Llun 15 Ebrill 2019 |
| **AMSER** | 11.30am – 1.30pm |
| **LLEOLIAD** | Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Maes Brigantîn, Caerdydd, CF10 4LG |

| **YN BRESENNOL** | **BLAENLYTHRENNAU** | **NODIADAU** |
|---|---|---|
| Graham England | GE | Ara |
| Anna Hemmings | AH | GamCare |
| Bev John | BJ | Prifysgol De Cymru |
| Sarah Meredith | SM | Llywodraeth Cymru |
| Teresa Owen | TO | Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Amanda Gilroy | AG | Ara |
| Ann John | AJ | Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe |
| Charlotte Meller | CM | Y Comisiwn Hapchwarae |
| Simon Wilkinson | SW | CLlLC (yn cynrhychioli'r Cyngh. Huw David a'r Cyngh. Dafydd Meurig) |
| Simon Dymond | SD | Prifysgol Abertawe |
| Sarah Johns | SJ | Cadeirydd Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan |
| Katie Fry | KF | Cyngor ar Bopeth |
| | | |
| **YN BRESENNOL** | | |
| Iain Corby | IC | Dirprwy Brif Weithredwr, GambleAware |
| John McCracken | JM | Cyfarwyddwr Comisiynu, GambleAware |
| **YMDDIHEURIADAU** | | |
| Dave Holland | DH | Cyfarwyddwr Diogelu'r Cyhoedd Cymru arweinydd ar gyfer materion trwyddedu |
| John Wainwright | JW | Heddlu De Cymru |
| Wynford Ellis Owen | WEO | The Living Room, Cardiff / Beat the Odds / CAIS |
| Cllr Huw David | HD | CLlLC - Arweinydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Kate Evans | KE | WSA |
| Owen Hathway | OH | Chwaraeon Cymru |
| Cyngh. Dafydd Meurig | DM | Llefarydd CLlLC ar Ddiogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio |

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd IC bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

## 2. Datganiadau o fuddiant

Nododd IC y byddai'n ofynnol i aelodau'r panel ddatgan unrhyw fuddiannau personol sy'n berthnasol i eitemau ar yr agenda ym mhob cyfarfod. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i unrhyw fynychwyr a allai ddymuno gwneud cais am arian GambleAware wedyn, lle byddai angen iddynt gamu allan ar gyfer trafodaethau ar flaenoriaethu cyllid yn gyffredinol, yn ogystal ag argymhellion ariannu penodol. O ystyried natur gyffredinol, ragarweiniol y cyfarfod cyntaf, nid oedd disgwyl cael unrhyw ddatganiadau o fuddiant, ac ni chynigwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 3. Cylch Gorchwyl

Roedd cylch gorchwyl drafft y Panel wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw - gweler Papur WAP 19 01 (01). Cytunwyd i adolygu'r rhain yn ail gyfarfod y Panel yng ngoleuni profiad y cyntaf.

## 4. Ymchwil yng Nghymru ac ar gyfer Cymru

Cytunodd y panel i gael ei friffio'n rheolaidd ar ymchwil sy'n berthnasol i Gymru, ac ymchwil sy'n cael ei wneud gan dimau ymchwil yng Nghymru.

Cyflwynodd yr Athro Ann John ganfyddiadau cynnar o'r gwaith ar niwed a hunanladdiad sy'n gysylltiedig â Gamblo yn y DU. (Nododd AH fod data ar gael o'r llinell gymorth a'r gwasanaethau triniaeth ar syniadau hunanladdol y gellid eu rhannu ag ymchwilwyr yn amodol ar gymeradwyaeth foeseg.)

Amlinellodd yr Athro Simon Dymond ganfyddiadau dau adroddiad a gyhoeddwyd ers bord gron Prif Swyddog Meddygol Cymru ym mis Ionawr:

- Gamblo fel mater iechyd cyhoeddus yng Nghymru, a
- Llunio dull iechyd cyhoeddus o ymdrin â niwed gamblo yng Nghymru: Heriau a chyfleoedd

Disgrifiodd JM brosiectau cyfredol Ymchwil Triniaeth GambleAware sy'n edrych ar effeithiolrwydd y gwasanaethau presennol, asesiad o anghenion a dadansoddiad bylchau.

Atgoffodd yr Athro Bev John y Panel hefyd am ymchwil i gamblo yng Nghymru a baratowyd ar gyfer Cynulliad Cymru oedd yn tynnu sylw at ba mor aml mae gamblo'n cael ei ddefnyddio fel mecanwaith ymdopi.

## 5. Hyrwyddo triniaeth – gwersi o Aberdeen

Cyflwynodd IC ganlyniad ymgyrch GambleAware i hyrwyddo'r Llinell Gymorth Gamblo Cenedlaethol a BeGambleaware.org yn yr Alban.

Awgrymodd SD y gallai ymgyrchoedd yn y dyfodol ddysgu o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus eraill. Anogodd AJ ddull gweithredu ar y cyd ag elusennau iechyd meddwl eraill.

## 6. Ymyriad cynnar a llwybrau cyfeirio

Rhoddodd KF ddiweddariad byr ar ddatblygiadau i ymestyn y fenter Cyngor ar Bopeth ledled Cymru a ddechreuodd fel cynllun peilot yng Nghasnewydd.

Disgrifiodd JM lwybrau cyfeirio gan wasanaethau awdurdodau lleol.

## 7. Diweddariad GamCare

Cyflwynodd AH y ffigurau diweddaraf ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r Llinell Gymorth a thriniaeth wyneb yn wyneb o Gymru. Disgrifiodd hefyd y paratoadau i lansio gwasanaeth CBT Cyfrifiadurol yn ddiweddarach eleni.

## 8. Y wybodaeth ddiweddaraf am Rwydwaith Triniaethau Cymru

Cyflwynodd AG ar ehangu'r gwasanaeth ARA yng Nghaerdydd

Rhoddodd GE y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau ARA ledled Cymru. Y cynlluniau presennol yw canolbwyntio gwasanaethau i ddechrau. Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe, Wrecsam i fanteisio ar y prifysgolion a'u cysylltiadau â chymunedau cyfagos. Awgrymodd TO weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL)

## 9. Cynllunio systemau ar gyfer triniaeth gamblo gan GIG Cymru

Hwylusodd JM drafodaeth ar y strategaeth ar gyfer triniaeth yn y dyfodol ledled Cymru.

Soniodd TO am ddiddordeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn y pwnc.

## 10. Unrhyw fusnes arall

Cytunodd y Panel i argymell penodi Theresa Owen fel cadeirydd i ymddiriedolwyr GambleAware.

Byddai'r Comisiwn Hapchwarae yn cynnal digwyddiad lansio ym mis Mai ar gyfer eu strategaeth newydd yn y Senedd, a'r union ddyddiad i'w gadarnhau.

Ar 27 Mehefin, byddai The Living Room yn cynnal cynhadledd i blant drafod gamblo.

Bydd y cyflwyniad o'r cyfarfod ar gael ar wefan GambleAware ochr yn ochr â'r cofnodion hyn (yn amodol ar olygu canfyddiadau heb eu cyhoeddi o ymchwil barhaus)